Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol y Creuddyn

**Ffordd Derwen**
**Bae Penrhyn**
**Llandudno**
**Conwy**
**LL30 3LB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol y Creuddyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol y Creuddyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 633 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 531 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 102 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 21.2%) | 9.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 14.8%) | 6.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 59.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.9% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 17/04/2023 (Pennaeth Mewn Gofal) |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 10/05/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/03/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Crynodeb

### Prif arfarniad

Mae Ysgol Y Creuddyn yn ysgol gartrefol ble mae lles ac anghenion unigol bob disgybl yn greiddiol i'w gwaith. Mae staff yn gwrando'n ofalus ar farn disgyblion er mwyn sicrhau bod eu llais yn ganolog i bopeth. Mae disgyblion yr ysgol yn hoffus ac yn barchus o'i gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae ganddynt falchder yn eu hysgol ac maent yn ymddwyn yn dda yn eu gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn aeddfed ac yn gwrtais dros ben. Mae llawer yn gwneud cynnydd cryf ac mae eu cyfraniad i fywyd yr ysgol yn nodedig.

Mae llawer o athrawon yn frwdfrydig am eu pwnc ac am ddysgu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn fodelau iaith cadarn sy'n cynllunio gwersi diddorol sy'n adeiladu o ran her. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn dros amser. Yn y lleiafrif o wersi ble mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae athrawon yn herio disgyblion i feddwl yn ddwfn ac yn gofyn cwestiynau treiddgar iawn. Mae'r disgyblion yn y gwersi hyn yn gwneud cynnydd cryf. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, mae gan athrawon ddisgwyliadau rhy isel o ddefnydd disgyblion o'r Gymraeg.

O ganlyniad i gefnogaeth gadarn gan staff, mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn awyrgylch gynhwysol 'Teulu'r Creuddyn'. Mae'r disgyblion mwyaf bregus yn derbyn cynhaliaeth effeithiol i ymateb i'w gofynion unigol. Trwy gydweithio llwyddiannus â'r ysgolion cynradd partner, mae disgyblion yn setlo'n gyflym i addysg uwchradd. Mae'r cynllun 'Trochi' ieithyddol yn galluogi disgyblion sy'n cyrraedd o gefndiroedd di-Gymraeg i ddod yn rhugl yn gyflym.

Mae gan staff weledigaeth amlwg i ddarparu profiadau dysgu gwerthfawr i ddisgyblion, sydd wedi'i seilio ar arwyddair yr ysgol, 'Dawn, Dysg, Daioni'. Mae eu gwaith cynllunio bwriadus i ddatblygu Cwricwlwm i Gymru ac asesu cynnydd disgyblion yn nodedig. Mae'r cyfleoedd a gaiff y disgyblion i ddatblygu eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau amrywiol ar draws y cwricwlwm yn gryfder nodedig. Mae staff yn llwyddo i adeiladu ar fedrau sylfaenol cadarn o'r gwersi mathemateg. Cyfoethogir y profiadau cwricwlaidd hyn gydag ystod helaeth o gyfleoedd allgyrsiol i ddatblygu eu medrau ehangach.

Mae gan y pennaeth mewn gofal weledigaeth glir sy'n cael ei harddel yn gyson gan dîm ymroddgar o staff. Mae gan staff adnabyddiaeth dda o anghenion unigol disgyblion. Trwy eu systemau cynhwysfawr i sicrhau ansawdd, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r prif gryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella yn yr ysgol. Maent yn casglu barn disgyblion a staff yn rheolaidd ac yn eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau allweddol. Mae arweinwyr wedi llwyddo i arwain gwelliannau mewn meysydd megis addysgu a dysgu, gan sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn dros amser. Fodd bynnag, mae lle i gryfhau'r atebolrwydd rhwng arweinwyr er mwyn ymateb yn fwy miniog i brif flaenoriaethau gwella'r ysgol, fel gwella presenoldeb disgyblion.

## Argymhellion

A1 Cryfhau atebolrwydd a sicrhau bod arweinwyr yn canolbwyntio'n fanwl ar y prif flaenoriaethau gwella

A2 Cynyddu defnydd y disgyblion o'r Gymraeg

A3 Gwella presenoldeb disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â chynllunio bwriadus i gyflwyno cwricwlwm perthnasol a chyfoes i ddisgyblion a'u gwaith datblygu medrau rhifedd disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion Ysgol y Creuddyn, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn effeithiol ac, o ganlyniad, yn datblygu eu gwybodaeth bynciol yn gynyddol. Maent yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol yn fwriadus i gyd-destunau newydd ar draws y cwricwlwm. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn. Yn aml, mae hyn o ganlyniad i ddisgwyliadau uchel ac addysgu effeithiol gan athrawon ac agweddau cadarnhaol y disgyblion at eu gwaith. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd arafach na'r disgwyl.

Dros amser, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn addas ac yn defnyddio geirfa bynciol yn y Gymraeg yn briodol. Maent yn gwrando'n astud ar eu hathrawon ac ar gyfraniadau eraill ac, o ganlyniad, yn defnyddio'r wybodaeth i gyfoethogi eu hymatebion. Mae'r disgyblion hyn yn ymateb yn dda i gwestiynau gan eu hathrawon ac yn cyfrannu'n gynhyrchiol at drafodaethau dosbarth. Mae lleiafrif y disgyblion yn egluro ac ymestyn eu hymatebion yn effeithiol ac yn mynegi eu barn yn dda. Mae ychydig o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn huawdl ac yn datblygu eu hymatebion yn aeddfed, gan ddefnyddio geirfa eang a soffistigedig. Fodd bynnag, mae lleiafrif y disgyblion yn llai hyderus i ymateb ar lafar neu'n cynnig atebion byr neu un gair. Maent yn defnyddio geirfa Saesneg wrth ymateb yn Gymraeg neu'n troi i Saesneg wrth drafod gyda chyfoedion.

Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos medrau darllen sylfaenol cadarn. Maent yn llithrddarllen yn llwyddiannus er mwyn canfod gwybodaeth o ddarnau amrywiol. Yn eu gwersi Saesneg, maent yn cymharu darnau darllen yn effeithiol ac yn dadansoddi ffynonellau heriol yn eu gwersi hanes. Mae mwyafrif y disgyblion yn crynhoi gwybodaeth ysgrifenedig o destun yn gywir ac yn bwrpasol. Yn eu pynciau iaith, mae lleiafrif y disgyblion yn dehongli ystyr darnau darllen yn llwyddiannus gan adnabod nodweddion arddull, megis cwestiynau rhethregol. O gael y cyfle a phan fydd yn briodol, mae llawer yn darllen ar goedd yn ddeallus a chyda mynegiant addas yn y ddwy iaith. Yn eu gwersi ieithoedd tramor modern, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen buddiol ac yn cynyddu eu geirfa yn sylweddol trwy gyflawni tasgau darllen heriol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau ysgrifennu'n addas ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn eu gwersi Cymraeg, maent yn ysgrifennu'n wybodus wrth lunio araith mynegi barn ar y testun 'Cyflogau uchel pêl-droedwyr'. Mae llawer yn trefnu eu gwaith yn synhwyrol mewn brawddegau a pharagraffau. Wrth ymateb i dasgau darllen, mae mwyafrif yn ysgrifennu'n rhugl yn y Gymraeg. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hynod o gywir ac mae ganddynt afael gryf ar gystrawen. Fodd bynnag, mae lleiafrif y disgyblion yn gwneud camgymeriadau cystrawennol, gramadegol, sillafu a threiglo yn eu gwaith ysgrifenedig.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhif sylfaenol cadarn ac maent yn eu cymhwyso'n fuddiol ar draws y cwricwlwm. Mae gan y disgyblion hyn afael dda ar werth lle a gallant gyfrifo â ffracsiynau a chanrannau yn gymwys. Mae eu dealltwriaeth o gysyniadau siâp a mesur yn addas, er enghraifft wrth drosi rhwng unedau metrig ac imperial a darllen graddfeydd yn gywir. Ar y cyfan, maent yn cyfrifo perimedrau, arwynebeddau a chyfeintiau siapiau yn gywir.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau trin data datblygedig. Er enghraifft, yn eu gwersi daearyddiaeth, maent yn dadansoddi nodweddion graffiau hinsawdd yn fedrus. Mae'r disgyblion hyn yn cyfrifo cyfartaleddau a llunio a dadansoddi amrywiaeth o graffiau yn llwyddiannus. Er enghraifft, yn eu gwersi gwyddoniaeth, mae disgyblion yn plotio graffiau buanedd-amser cymhleth o daith y 'Terminator' ar gefn ei feic modur. O ganlyniad i amrywiaeth o gyfleoedd pwrpasol, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn annibynnol i ddatrys problemau sydd wedi eu gosod mewn cyd-destun.

Ar y cyfan, mae disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn addas ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn eu gwersi technoleg, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio meddalwedd dylunio yn effeithiol er mwyn creu logo.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn fuddiol. Er enghraifft, maent yn arbrofi â chyfryngau gwahanol yn briodol yn eu gwersi celf ac yn ysgrifennu'n greadigol i ddisgrifio arcêd gemau yn llwyddiannus yn eu gwersi Saesneg. Ar y cyfan, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn fuddiol ar draws gwahanol bynciau. Er enghraifft, yn eu gwersi ieithoedd tramor modern, mae disgyblion yn defnyddio strategaethau yn llwyddiannus i ddehongli ystyr geirfa a chystrawennau anghyfarwydd.

Yn y gwersi addysg gorfforol ac mewn sesiynau chwaraeon amser egwyl a chinio, mae disgyblion yn datblygu amrywiaeth o fedrau corfforol yn llwyddiannus. Yn

ogystal, yn eu gwersi drama, mae disgyblion yn datblygu medrau corfforol penodol wrth ddysgu am, a pherfformio, symudiadau cyffredin mewn theatr ornest.

Drwyddi draw, mae disgyblion y chweched dosbarth yn gwrtais ac aeddfed a gwnânt gyfraniad gwerthfawr i gymuned yr ysgol. Maent yn gwrando'n barchus yn eu gwersi ac yn cyfrannu'n effeithiol, gan ddefnyddio iaith lafar raenus, yn aml. Lle bo'n berthnasol, maent yn gwneud datblygiad gwerthfawr yn eu medrau ysgrifennu estynedig. Yn gyffredinol, maent yn cymhwyso eu dealltwriaeth bynciol yn fedrus i ddatrys problemau cymhleth yn annibynnol. O ganlyniad, mae llawer yn gwneud cynnydd cryf dros amser.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae ymdeimlad cryf o falchder ymysg disgyblion o fod yn rhan o gymuned glòs Ysgol y Creuddyn. Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac mae'r rhan fwyaf yn dweud eu bod yn mwynhau mynychu'r ysgol.

Mae'r parch rhwng y staff a'r disgyblion yn gryfder ac mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion berthynas waith gadarnhaol â'u hathrawon. Mae disgyblion yn frwdfrydig wrth ymgymryd â thasgau yn y dosbarth. Maent yn gwrtais ac yn gwrando'n astud ar gyfraniadau eu cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd eu gwersi yn brydlon ac yn ymgysylltu'n llawn yn eu dysgu. Er hyn, mae gan ychydig o ddisgyblion ddiffyg hyder i gyfrannu ar lafar. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda yn eu gwersi. Pan fyddant yn derbyn y cyfle, mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n gynhyrchiol mewn parau a grwpiau bychain.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn aeddfed a chyfeillgar ac yn chwarae rhan allweddol wrth weithredu a chynnal ethos teuluol Ysgol y Creuddyn. Maent yn cyfrannu'n werthfawr at fywyd yr ysgol ac yn datblygu medrau arwain buddiol, er enghraifft drwy arwain ar weithgarwch elusennol ac arwain fel uwch swyddogion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod athrawon yn eu hannog i barchu ei gilydd a datblygu eu hymwybyddiaeth o degwch a chydraddoldeb trwy wasanaethau wythnosol, cyfnodau tiwtor dosbarth, mentrau cenedlaethol a gwersi lles ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn newid pethau, lle bo'n bosibl. Mae disgyblion yn elwa o ymgymryd â rolau arwain trwy'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Cydraddoldeb. Drwy hyn, maent wedi cael dylanwad cadarnhaol ar agweddau o fywyd yr ysgol, gan arwain at newidiadau sy'n cynnwys cyflwyno systemau unffordd ar goridorau'r ysgol ac adnewyddu'r toiledau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn waraidd o amgylch yr ysgol amser egwyl, cinio ac wrth symud ar hyd y coridorau. Mae bron bob disgybl yn groesawgar, cwrtais, a pharchus gydag ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dweud nad ydynt yn cael eu bwlio ac yn gwybod at bwy i droi petai ganddynt unrhyw bryder. Maent yn ymwybodol o brosesau ymdrin â bwlio ac yn gwerthfawrogi strategaethau megis y 'Bocs Bwlio ar-lein' a'r cymorth gan y tîm bugeiliol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd datblygu eu ffitrwydd a byw bywyd iach. Mae llawer yn cyfranogi gyda brwdfrydedd mewn ystod o weithgareddau yn eu gwersi addysg gorfforol a chyfleoedd allgyrsiol i fechgyn a merched, fel clybiau

pêl-droed, pêl-rwyd, pêl-fasged a gymnasteg. Mae disgyblion yn cael budd o gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol megis ensemble cerddoriaeth ‘Cyrn y Creuddyn’, sioeau cerdd a dramâu, a phartïon a chorau Cerdd Dant.

Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, roedd presenoldeb yr ysgol yn uwch na’r gyfradd a welwyd mewn ysgolion tebyg eraill. Fodd bynnag, er bod presenoldeb cenedlaethol wedi gwella eleni, mae presenoldeb yr ysgol wedi aros yn debyg i’r llynedd. Y flwyddyn ddiwethaf, roedd presenoldeb disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn wir eleni, hefyd.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae’r berthynas agos a chadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion y Creuddyn yn nodedig. Mae gan bron bob athro berthynas waith gynhaliol a chynhyrchiol â’u disgyblion. O ganlyniad i strategaethau rheolaeth ddosbarth effeithiol, maent yn creu awyrgylch waith gadarnhaol lle mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall a pharchu disgwyliadau athrawon o ran ymddygiad ac ymgysylltiad. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ganmoliaeth ac anogaeth i sicrhau ymgysylltiad a boddhad y disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan athrawon wybodaeth bynciol gref ac maent yn defnyddio terminoleg pwnc yn gyson wrth gyflwyno neu gyfarwyddo. Mae llawer o athrawon yn arddangos brwdfrydedd am eu maes dysgu, ac yn cyfarwyddo ac egluro’n glir. Ar y cyfan, maent yn fodelau iaith cadarnhaol. Maent yn cynllunio tasgau sy’n adeiladu ar ei gilydd yn synhwyrol ac yn darparu adnoddau diddorol ac apelgar sy’n cynorthwyo’r dysgu. Mae llawer o athrawon yn gosod tempo addas a phwrpasol i’r wers. Gan amlaf, maent yn modelu disgwyliadau’n eglur gan gyfeirio’n gyson at feini prawf a defnyddio enghreifftiau addas, yn aml o waith disgyblion, i esbonio ac er mwyn adeiladu dealltwriaeth disgyblion o ofynion tasgau.

Mewn lleiafrif o wersi, mae’r addysgu yn effeithiol iawn ac yn arwain at ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o gyflawniad disgyblion, ynghyd â’u defnydd o’r Gymraeg ac ansawdd eu hiaith. Maent yn cyflwyno gyda brwdfrydedd heintus ac yn rhannu eu hangerdd am y pwnc gyda’u disgyblion. Maent yn cynllunio’r dysgu yn ofalus iawn i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth. Mae’r athrawon yn y gwersi hyn yn esbonio cysyniadau cymhleth iawn mewn ffordd hylaw. Maent yn gofyn cwestiynau treiddgar ac yna’n gosod tasgau pwrpasol i gryfhau gallu’r disgyblion i ddatrys problemau, i ddatblygu eu medrau meddwl ac ehangu eu hatebion. Mewn rhai achosion, mae ansawdd uchel iawn i’r adnoddau dysgu sy’n dangos ôl meddwl sylweddol wrth eu cynllunio.

Mewn ychydig o wersi, mae diffygion yn y cynllunio neu’r cyfarwyddo yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu, eu medrau pwnc neu yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Nid yw ychydig o athrawon yn cynllunio’n ddigon gofalus i sicrhau bod tasgau’n adeiladu’n synhwyrol ar ei gilydd neu fod digon o her ynddynt. Yn rhy aml, collir cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu ar lafar neu ddatblygu medrau gweithio’n annibynnol neu gydag eraill gan fod yr athrawon yn gor-lywio gweithgareddau neu’n gor-gyfarwyddo tasgau. Ar adegau eraill, nid yw athrawon yn diffinio meini prawf llwyddiant yn ddigon eglur neu’n modelu eu disgwyliadau’n ddigon clir. O ganlyniad, mae disgyblion yn ansicr ynghylch gofynion y dasg ac yn

gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl. Mae ychydig o athrawon yn gorddefnyddio terminoleg Saesneg wrth gyflwyno ac wrth siarad â disgyblion. Nid oes ganddynt ddisgwyliadau digon uchel o ddefnydd disgyblion o'r Gymraeg.

Ar y cyfan, mae strategaethau asesu dealltwriaeth a chynnydd disgyblion yn gadarn ar draws yr ysgol. Yn y gwersi, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn holi disgyblion yn gyson ac effeithiol i wirio eu gwybodaeth flaenorol, i fesur eu dealltwriaeth ac i sicrhau eu hymgysylltiad. Mae llawer o athrawon yn gwneud ymdrech fwriadus i addasu eu cwestiynau drwy holi'n ddyfnach, neu ofyn am enghreifftiau. Maent yn darparu adborth chwim, defnyddiol i ddisgyblion wrth iddynt weithio. Fodd bynnag, nid yw strategaethau asesu ychydig o athrawon yn ddigon effeithiol ac mae hyn yn llesteirio eu gallu i fonitro cynnydd. Nid ydynt yn gofyn cwestiynau digon treiddgar, neu'n gofyn i ddisgyblion ehangu eu hatebion ac maent yn holi cwestiynau ar lefel dosbarth cyfan yn unig.

Ym mwyafrif y pynciau, mae athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig pwrpasol a defnyddiol ar waith disgyblion. Mewn ychydig o bynciau, mae'r adborth yn fanwl a phenodol iawn ac yn arwain at ddisgyblion yn gwneud gwelliannau sylweddol yn ansawdd eu gwaith. Ym mwyafrif y pynciau, mae athrawon yn adnabod a thynnu sylw at wallau ieithyddol ac yn gwneud defnydd cyson o strategaeth ysgol gyfan i ddarparu amser myfyrio a gwella darnau penodol o waith. Drwyddi draw, mae amrywiaeth yn ansawdd ac effaith adborth ysgrifenedig o fewn ac ar draws pynciau ac mae ymateb disgyblion i sylwadau athrawon yn amrywiol. Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer adrodd i rieni a gofalwyr ar gynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n diwallu diddordebau a dyheadau y rhan fwyaf o ddisgyblion. Gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o farn disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn y Chweched Dosbarth. Trwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau lleol, cynigir ystod dda o gyrsiau TGAU, Safon Uwch a chyrsiau galwedigaethol.

Mae gan yr ysgol weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru sydd wedi ei seilio ar arwyddair yr ysgol, 'Dawn, Dysg, Daioni'. Mae staff wedi ymgynghori â rhanddeiliaid a chydweithio'n fwriadus ag ysgolion cynradd partner i gynllunio darpariaeth sy'n sicrhau datblygiad cynyddol o'r cynradd i'r uwchradd. Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm gwreiddiol ac ysgogol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad ym Mlynyddoedd 7 ac 8. Mae hwn wedi'i gynllunio'n grefftus i adlewyrchu cynefin a threftadaeth yr ardal leol, Cymru a'r byd. Er enghraifft, mae'r celfyddydau mynegiannol yn defnyddio cerddoriaeth Gymraeg a gyfansoddwyd gan gyn-ddisgyblion, sef 'Sa neb fel ti' (Eden), 'Fama di'r lle' (Maharishi) a 'Lle Hoffwn Fod' (Al Lewis) fel sbardun.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd ar draws y pynciau yn gadarn. Mae cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu a darllen. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu huwch fedrau darllen mewn amryw o bynciau. Er hynny, nid oes cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig mewn ychydig iawn o bynciau.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau rhifedd yn gryfder nodedig. Darperir hyfforddiant pwrpasol i staff yr ysgol, athrawon yn yr ysgolion cynradd lleol a rhieni ar sut i gefnogi'r disgyblion i gymhwyso eu medrau rhifedd i ddatrys problemau mewn

cyd-destunau sydd yn gynyddol heriol. Cynhelir diwrnodau dathlu megis 'Diwrnod π (pi)' a thwrnameintiau dartiau er mwyn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd rhifedd mewn modd hwyliog.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau digidol disgyblion yn briodol ond yn ei ddyddiau cynnar. Mae'r cyfleoedd i ddatblygu medrau digidol wedi eu hadnabod ar draws y cwricwlwm.

Nodwedd gref o waith yr ysgol yw'r ddarpariaeth 'Trochi' sydd yn caniatáu i ddisgyblion drosglwyddo o Flwyddyn 6 ysgolion Cymraeg ail iaith i Flwyddyn 7. Yn fuan iawn, mae'r disgyblion hyn yn datblygu'n siaradwyr rhugl y Gymraeg sy'n gallu astudio'r holl gwricwlwm a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn yr iaith.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm amgen buddiol i gefnogi disgyblion bregus a'r rhai sydd ddim yn ymgysylltu'n dda â'u haddysg. Cynigir profiadau gwerthfawr ar gyfer disgyblion mwy galluog mewn partneriaeth â nifer o asiantaethau ac arbenigwyr allanol.

Darperir ystod eang o deithiau, gweithgareddau allgyrsiol a phrofiadau ehangach i gyfoethogi'r cwricwlwm, gan gynnwys Gwobr Dug Caeredin, llu o wersi offerynnol ac ymweliadau addysgol i garchar Biwmares, a chartref y bardd Hedd Wyn yn yr Ysgwrn.

Mae'r ddarpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn gryfder. Mae cynnwys y rhaglen yn cael ei ddiwygio'n gyson i ymateb i holiaduron lles a heriau cenedlaethol cyfredol. Yn ogystal, darperir gwersi buddiol ar addysg cydberthynas a rhywioldeb ar draws yr ysgol. Ceir cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am hanes a phrofiadau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl LHDTC+ mewn sesiynau boreol, gwasanaethau, drwy'r rhaglen ABCh ac mewn gwersi.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn i ddisgyblion ddysgu am a dathlu eu treftadaeth a diwylliant Cymraeg a Chymreig, ac i ymfalchïo yn eu Cymreictod. Mae hyn yn cynnwys dysgu am ddatblygiad yr iaith Gymraeg yn y gwersi hanes, creu a ffilmio cyflwyniadau llafar yn y gwersi Cymraeg a chymryd rhan mewn nifer helaeth o gystadlaethau a dathliadau celfyddydol, yn lleol a thrwy'r Urdd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae Ysgol y Creuddyn yn gymuned gynhwysol a gofalgar sy'n arddel arwyddair yr ysgol i feithrin 'Dawn, Dysg, Daioni' disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn cynnig ystod gynhwysfawr o ymyraethau a chefnogaeth ychwanegol er mwyn cefnogi lles a datblygiad cymdeithasol disgyblion. Er enghraifft, mae'r 'Hafan', 'Hwb', Clwb Brecwast a'r ardal fugeiliol yn darparu mannau diogel a chymorth gwerthfawr i nifer o ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth hon yn cefnogi'r disgyblion hyn i fod yn barod i ddysgu. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais amlwg ar les a chynhwysiant yn eu prosesau pontio cynhwysfawr. Mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus ag ysgolion cynradd partner i sicrhau trosglwyddo effeithiol i'r uwchradd.

Mae fforymau dysgwyr, gan gynnwys y Cyngor Ysgol, y Cyngor Cydraddoldeb ac uwch swyddogion y chweched dosbarth yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain a thrafod sut i wella'r ysgol. Mae'r Cyngor

Ysgol wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar benderfyniadau'r ysgol, gan gynnwys gwella'r dewis o fwydydd iach yn y ffreutur. Mae arwyddair y Cyngor Ysgol, 'Eich Hysgol Chi; Eich Cyngor Chi; Eich Llais Chi.' yn cwmpasu gweledigaeth a rôl ganolog y disgybl yn natblygiadau'r ysgol. I ymateb i gais gan ddisgyblion, sefydlwyd y Cyngor Cydraddoldeb yn ddiweddar. Mae hyn, yn ogystal â phrosiectau a digwyddiadau ysgol gyfan fel diwrnod 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth', yn fodd o helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb a chynhwysiant.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol trwy wasanaethau ysgol pwrpasol sy'n adlewyrchu dathliadau a digwyddiadau cenedlaethol. Caiff hyn ei atgyfnerthu yn ystod gweithgareddau cyfnodau bugeiliol. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol ei chyfoethogi gan asiantaethau allanol fel yr heddlu, gwasanaethau ieuenctid a'r nyrs ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n gynhyrchiol â phartneriaid allanol i gefnogi lles disgyblion penodol. Mae hyn yn cynnwys gwaith gyda Gofalwyr Ifanc, prosiect Sbectrwm Hafan Cymru ac elusen Joshua Tree Foundation. Mae'r tîm bugeiliol wedi sefydlu cysylltiadau gwerthfawr â 'Mind Conwy' er mwyn darparu cefnogaeth ragweithiol wrth gefnogi lles ac iechyd meddwl disgyblion.

Mae'r cyfleoedd eang i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol yn nodedig. Er enghraifft, mae cynhyrchiad ysgol gyfan o'r sioe 'Matilda' yn darparu cyfle i ddisgyblion ddatblygu medrau creadigol gwerthfawr ac i gryfhau eu hymdeimlad o berthyn i'r ysgol. Mae gan yr ysgol arlwy gyfoethog o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol er mwyn datblygu dealltwriaeth disgyblion o fuddiannau cadw'n iach a ffitrwydd ac i ddatblygu medrau gwaith tîm. Mae rhaglen amrywiol o glybiau yn ystod amseroedd cinio, megis 'Dreigiau a Daeargellau' a 'Llecyn Llonydd Llyfrau', sy'n cefnogi lles a datblygiad cymdeithasol disgyblion.

Mae disgyblion yn cael cyngor annibynnol ac arweiniad defnyddiol wrth iddynt ystyried eu dewisiadau am y dyfodol. Elfen werthfawr o'r broses yw'r cyfle i glywed profiadau disgyblion hŷn sy'n astudio pynciau TGAU a Safon Uwch. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus â chyflogwyr a sefydliadau addysg bellach ac uwch er mwyn cefnogi'r disgyblion i wneud dewisiadau am eu camau nesaf.

Mae gwella presenoldeb yn flaenoriaeth amlwg i arweinwyr yr ysgol ac mae trafodaethau am sut i wella presenoldeb disgyblion yn digwydd yn rheolaidd. Mae uwch arweinwyr yn dadansoddi data'n drylwyr er mwyn adnabod tueddiadau mewn presenoldeb unigolion, grwpiau a blynyddoedd ysgol, ond nid oes gafael ddigon cadarn gan yr arweinwyr canol perthnasol ar y data hwn. Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da trwy ymgyrchoedd cyson i godi ymwybyddiaeth disgyblion a rhieni a gwobrwyo rheolaidd am gyfraddau presenoldeb uchel neu unrhyw welliannau. Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio ystod o strategaethau er mwyn sicrhau bod disgyblion bregus yn cael eu cefnogi'n bwrpasol. Mae'r rhain yn cynnwys defnydd o'r 'Hafan' wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnodau o absenoldeb estynedig a chynnig cwricwlwm amgen, lle bo angen. Mae'r clwb brecwast a'r arlwy eang o weithgareddau allgyrsiol yn sicrhau bod man llesol i ddisgyblion bregus fynd yn ystod amseroedd digyswllt. Mae offer a gwisg ysgol ar gael yn rhad ac am ddim i ddisgyblion drwy'r 'Gyfnewidfa Gwisg Ysgol' er mwyn sicrhau nad yw'r rhain yn rhwystrau rhag iddynt fynychu. Gweithia'r ysgol yn agos

gydag asiantaethau allanol a theuluoedd er mwyn cefnogi disgyblion sy’n absennol yn gyson. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn gwerthuso effaith eu gwaith yn y maes hwn yn ddigon trylwyr, ac nid yw’r strategaethau wedi cael digon o effaith ar wella presenoldeb disgyblion.

Mae arweinwyr yn mentora pob disgybl sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim er mwyn cefnogi eu lles a’u cynnydd, a’u hannog i fynychu’r ysgol yn gyson. Mae cyfraddau presenoldeb y disgyblion hyn yn cymharu’n ffafriol â chyfraddau yr un grŵp yn genedlaethol.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag ADY. Mae arweinwyr wedi adnabod y disgyblion hynny sydd angen y mwyaf o gefnogaeth a blaenoriaethu cefnogaeth iddynt yn synhwyrol. Mae’r tîm anghenion dysgu ychwanegol yn cydweithio’n effeithiol. Mae staff yn darparu ymyraethau llythrennedd a rhifedd, rhaglenni cefnogi datblygiad emosiynol a chymdeithasol, cefnogaeth yn y brif ffrwd a chanolfannau fel yr Hafan a’r Hwb. Nodwedd gref o’r ddarpariaeth yw’r trefniadau pontio ar gyfer y disgyblion ag ADY. Mae’r rhain yn sicrhau bod adnabyddiaeth lawn gan y tîm o anghenion y disgyblion wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion ag ADY yn trosglwyddo’n llwyddiannus o’r cynradd i’r uwchradd. Gweithia’r ysgol yn gynhyrchiol gydag asiantaethau allanol, gan gynnwys y seicolegydd addysg, y nyrs ysgol, gweithwyr ieuenctid ac ysgol arbennig leol i gyfoethogi’r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer y disgyblion hyn a’r rhai sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol. O ganlyniad i’r ddarpariaeth eang, mae’r disgyblion a gefnogir gan y tîm ADY yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau emosiynol, personol a chymdeithasol.

Mae arweinwyr yn cydweithio’n agos â’r awdurdod lleol, yr ysgolion cynradd partner ac arweinwyr ysgolion uwchradd eraill lleol er mwyn gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Ar y cyfan, mae cynlluniau datblygu unigol y disgyblion sydd ag ADY yn cynnwys targedau priodol ynghyd â dyddiadau adolygu. Mae’r proffiliau un tudalen yn cynnwys strategaethau defnyddiol i helpu staff wybod sut i gefnogi’r disgyblion. Mae’r trefniadau rhannu gwybodaeth gyda staff yn eglur a phwrpasol ac mae arweinwyr yn monitro’r defnydd o’r strategaethau yn briodol. Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol berthynas gadarnhaol â rhieni disgyblion sydd ag ADY. Mae’r ysgol yn rhannu gwybodaeth a strategaethau effeithiol i gefnogi disgyblion adref. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd disgyblion sydd ag ADY yn gyson ac yn addasu’r ddarpariaeth, yn ôl yr angen.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i ddiogelu disgyblion. Mae arweinwyr wedi llwyddo i greu diwylliant lle mae hyrwyddo diogelu a lles disgyblion yn flaenoriaeth i’r holl staff. Rhoddir hyfforddiant pwrpasol a rheolaidd i staff ar faterion diogelu ac, o ganlyniad, mae gan staff ddealltwriaeth dda iawn o’u cyfrifoldebau. Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol wrth ymateb i faterion diogelu ac amddiffyn plant. Mae staff yn delio'n effeithiol ac yn amserol gydag unrhyw achosion o fwlio. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymwybodol o beth i’w wneud os oes ganddyn nhw bryderon.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Yn dilyn cyfnod o newid, mae’r pennaeth mewn gofal wedi cynnig arweinyddiaeth gadarn a chefnogol i’r staff. Mae ganddi weledigaeth glir i greu ysgol gynhwysol lle

mae ‘Dawn, Dysg, Daioni’ disgyblion yn greiddiol i waith yr ysgol. Mae’r weledigaeth hon yn cael ei rhannu’n gyson â rhanddeiliaid ac yn cael ei harddel gan y staff. Mae’r pennaeth mewn gofal yn arwain drwy esiampl ac yn trin ei staff gyda pharch ac empathi.

Mae’r uwch dîm arwain estynedig yn cefnogi’r pennaeth mewn gofal yn gadarn ac maent yn dîm arwain ymroddgar. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn adnabod y staff a’r disgyblion yn dda. Maent yn llwyddo i gynnal awyrgylch gynhaliol sy’n arwain at ymdeimlad cryf o weithio fel tîm.

Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr canol adnabyddiaeth glir o’r cryfderau a’r meysydd i’w gwella o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn ffocysu’n ddigon agos ar y blaenoriaethau gwella o fewn eu cyfarfodydd adrannol. Mae’r cyfarfodydd hyn yn dueddol o ymwneud â materion trefniadol yn hytrach na thrafod gwella ansawdd yr addysgu a’r dysgu. Yn gyffredinol, nid yw rheolwyr llinell bob amser yn dal arweinwyr canol yn atebol am eu gwaith. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio ar y prif flaenoriaethau gwella yn ddigon trylwyr.

Mae uwch arweinwyr yn talu sylw buddiol i flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi cynllunio’n synhwyrol ac arloesol ar agweddau o’r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnig profiadau cyfoes a chyffrous i ddisgyblion. Mae arweinwyr a staff yn darparu arlwy eang o weithgareddau cyfoethog i ddisgyblion ddathlu eu hunaniaeth a’u Cymreictod. Serch hynny, nid yw’r ysgol wedi bod yn ddigon llwyddiannus wrth sicrhau bod yr holl staff yn hyrwyddo defnydd y disgyblion o’r Gymraeg.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i sicrhau bod y broses rheoli perfformiad yn cefnogi blaenoriaethau gwella’r ysgol. Mewn trafodaeth â’u rheolwyr llinell, mae staff yn gosod amcanion pwrpasol i yrru gwelliant. Mae’r ysgol yn cynnig amrediad addas o gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer yr holl staff, sy’n cynnwys cydweithio ag ysgolion eraill, hyfforddiant mewnol a gwaith gyda darparwyr allanol priodol.

Mae gan yr ysgol galendr cynhwysfawr o weithgareddau sicrhau ansawdd sy’n cynnwys arsylwadau gwersi, teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion, a chasglu barn disgyblion â’u rhieni. Wrth ymgymryd â’r gweithgareddau hyn, mae arweinwyr yn cynnal ffocws miniog ar y cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud yn eu medrau a’u dealltwriaeth bynciol. Mae’r uwch dîm arwain yn syntheseiddio’r dystiolaeth o’r prosesau hyn yn fedrus. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl a chywir o’r cryfderau a’r meysydd i’w gwella yn nysgu’r disgyblion ac maent yn rhannu’r meysydd i’w gwella â’r staff gyfan yn fuddiol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn defnyddio data perthnasol i ategu at eu canfyddiadau. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi dechrau cryfhau’r cysylltiad rhwng blaenoriaethau sy’n deillio o weithgareddau hunanwerthuso a’r arlwy ar gyfer datblygiad proffesiynol staff. Mae hyn yn cynnwys cynnal sesiynau boreol i rannu arferion da ymysg y staff.

Mae cynllunio gwella ysgol gyfan yn cynnwys blaenoriaethau gwella perthnasol ynghyd â gweithgareddau synhwyrol i’w diwallu. Fodd bynnag, mae gormod o flaenoriaethau sy’n cwmpasu holl waith yr ysgol ac, o ganlyniad, nid yw arweinwyr yn rhoi digon o ffocws ar y prif flaenoriaethau gwella.

Er bod ychydig o le i fireinio'r prosesau gwella ansawdd, mae gan arweinwyr hanes llwyddiannus o yrru gwelliannau. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau addysgu o ansawdd cyson uchel, darpariaeth fuddiol i sicrhau cynnydd ym medrau rhifedd, ynghyd â chynnal lefelau uchel lles disgyblion.

Mae gan y corff llywodraethol adnabyddiaeth dda o'u hysgol. Maent yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Maent yn angerddol ac yn gefnogol iawn i'r pennaeth mewn gofal a'r staff. Maent yn gweithredu fel cyfeillion beirniadol ac yn dechrau chwarae rhan yng ngweithdrefnau hunanwerthuso a gwella'r  ysgol. Maent yn blaenoriaethu hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn briodol.

Mae gan yr ysgol berthynas agos a chynhaliol â rhieni. Mae'r arweinwyr yn cyfathrebu'n rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth allweddol a dathlu llwyddiannau disgyblion trwy gylchlythyrau a gwefan ddefnyddiol yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu at yr ymdeimlad cryf o 'Teulu'r Creuddyn'.

Mae'r pennaeth mewn gofal, y rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant a chyllideb yr ysgol yn addas. Mae'r llywodraethwyr ac uwch arweinwyr yn gwneud defnydd addas o grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i gefnogi'r disgyblion mwyaf bregus ac i leihau effaith tlodi. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwerthuso effaith gwariant y grantiau.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.gov.wales/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 16/05/2024